



Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant – Profion

Gwybodaeth i Rieni

Fel yr eglurwyd yn y daflen *Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant – Gwybodaeth i Rieni*, efallai y bydd angen i'ch plentyn gael profion meddygol. Diben y daflen hon yw eich helpu i ddeall hyd a lled y profion.

Pa brofion a fydd fy mhlentyn yn eu cael, a pham?

(Nodyn i'r meddyg: Ticiwch fel y bo'n briodol)

Mae hyn yn dibynnu ar oedran eich plentyn, y rheswm y mae'n ofynnol iddo gael ei weld, a'r hyn a ganfyddir wrth archwilio.

Profion gwaed

Rydym yn cynnal profion gwaed i chwilio am unrhyw reswm meddygol dros anaf neu broblemau eich plentyn. Gellir defnyddio hufen neu chwistrell anesthetig lleol i liniaru unrhyw anghysur neu drallod.

Profion llygaid

Os yw eich plentyn dan ddwy oed, efallai y bydd arno angen archwiliad llygaid gan arbenigwr (offthalmolegydd), a fydd yn defnyddio offer arbennig. Diben hyn yw chwilio am ganfyddiadau perthnasol yng nghefn y llygaid. Efallai y bydd ar eich plentyn angen diferion llygaid i helpu'r meddyg i weld cefn y llygaid yn fwy eglur. Ni ddylai'r archwiliad hwn fod yn boenus. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'ch plentyn aros yn llonydd, ac efallai y bydd yn ofynnol ei ddal yn gadarn ei le er mwyn i'r prawf gael ei gynnal.

Ffotograffiaeth feddygol

Os oes gan eich plentyn unrhyw farciau neu gleisiau gweladwy, mae'n bosibl y bydd ffotograffau meddygol yn cael eu tynnu, a fydd yn cael eu cadw yn rhan o'i gofnod iechyd.

Sgan CT o'r pen

Os oes yna bryder y gallai eich plentyn fod wedi anafu ei ben, bydd yn ofynnol iddo gael sgan o'i ben. Mae'r sgan yn ddi-boen, ac fel arfer yn cymryd tua pum munud i'w gyflawni. Mae'r sgan yn defnyddio pelydrau-X, ac felly bydd eich plentyn yn agored i ychydig bach o ymbelydredd. Rydym i gyd yn agored i ychydig bach o ymbelydredd bob dydd. Fodd bynnag,

gall dosau uchel o ymbelydredd, neu amlygiad hir neu ailadroddus iddo, fod yn beryglus. Mae'r risg ymbelydredd o un sgan CT yn fach, ac mae'n hanfodol bod unrhyw anafiadau i'r pen yn cael eu nodi a'u trin mewn modd priodol.

Arolwg Ysgerbydol

Os yw eich plentyn dan ddwy oed, neu os yw'n hŷn a chanddo anafiadau corfforol sylweddol neu anafiadau sy'n peri pryder, efallai y bydd yn ofynnol iddo gael arolwg ysgerbydol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfres o belydrau-X o'r esgyrn i chwilio am doriadau. Mae'n cymryd o leiaf 30 munud i'w gwblhau. Ni ddylai'r archwiliad fod yn boenus, ond efallai y bydd yn rhaid i'ch plentyn gael ei ddal yn gadarn yn ei le er mwyn i'r prawf gael ei gynnal. Mae'r arolwg ysgerbydol yn digwydd mewn dau gam, gydag ail gyfres o belydrau-X yn cael eu cynnal 10 i 14 diwrnod ar ôl y gyfres gyntaf.

Sganiau eraill *Nodwch*

Efallai y bydd yn ofynnol i'ch plentyn gael sganiau eraill, er enghraifft MRI. Bydd y meddyg yn trafod y rhain â chi gyntaf.

Mae'n bosibl y bydd angen ychydig ddyddiau i gwblhau pob prawf a chael yr holl ganlyniadau. Bydd unrhyw oedi yn cael ei egluro i chi. Os canfyddir bod gan eich plentyn unrhyw anghenion gofal iechyd, bydd y meddyg yn eich cynghori ar yr hyn a ddylai ddigwydd nesaf.

Lefel Gradd Flesch Kincaid 7.8

Rhwyddineb Darllen Flesch 68.1